# COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 2 YN FLAENOROL) A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD IAU, 11 MEDI 2025 10:00

## Presennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Bletsoe | S Easterbrook | GC Haines | D M Hughes |

## Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| C Davies | P Ford | RM James | P W Jenkins |
| W J Kendall | M Lewis | | |

## Ymddiheuriadau am Absenoldeb

R Williams

## Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Kelvin Barlow | Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| David Wright | Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plentyn a Theuluoedd |
| Sarah Tripp | Rheolwr Canmoliaeth a Datrys Cwynion |

## Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jessica McLellan | Swyddog Craffu |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

Datgan Buddiannau

RM James – Personol – Gwraig yw Cadeirydd Panel Maethu Pen-y-bont ar Ogwr

## 41. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles dyddiedig 9 Gorffennaf 2025 yn gofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Medi 2025 |

## 42. Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2024-25 Drafft

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Croesawyd yr adroddiad fel darlun gwych o'r ddarpariaeth gwasanaeth ac mewn rhai meysydd, megis y gweithlu, er enghraifft, hyd yn oed rhagoriaeth. Roedd y Pwyllgor eisiau estyn eu diolch i Swyddogion o fewn y Gyfarwyddiaeth am y gwaith da a gyflawnwyd.<br><br>Fodd bynnag, mynegodd y Pwyllgor bryder ynglŷn ag ystyriaethau ariannol, yn enwedig, y ddibyniaeth ar gyllid grant ac roeddent yn awyddus i'r Gyfarwyddiaeth gynnal momentwm i sicrhau cynaliadwyedd y lefel o ragoriaeth y mae'n ei chyrraedd ac yn ymdrechu tuag ati o fewn cyfyngiadau cyllidebol.<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion a'r ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>1. Cynghorwyd yr aelodau bod yr Hyb Atal ac Ymyrryd yn Gynnar yn gweithredu gwasanaeth ffôn |

| | |
|---|---|
| | ateb ac yn dychwelyd galwadau o fewn amserlenni penodol sy'n caniatáu iddynt gael trafodaethau manwl ac ystyrlon i alluogi asesiadau cymesur a bod nifer arall ar gyfer argyfyngau. Mynegodd y Pwyllgor bryder nad yw'r wybodaeth ar wefan y Cyngor yn gwneud hyn yn glir ac **argymhellodd** fod y wybodaeth sy'n ymwneud â'r Hwb yn cael ei diweddaru i ddarparu eglurder i'r cyhoedd.<br><br>2. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod gohebiaeth yn cael ei hanfon at Lywodraeth Cymru yn mynegi'r pryderon canlynol:<br><br>a. Cynaliadwyedd darparu gwasanaethau sy'n aml yn dibynnu ar gyllid grant gan gynnwys cyllid tymor byr pan fo angen cyllid cylchol, e.e. Dileu Cyllid Grant Elw;<br>b. Rhybudd byr am gyllid sy'n effeithio ar gynllunio a gweithredu ariannol y Cyngor;<br>c. bod yr ymrwymiadau polisi cenedlaethol sy'n deillio o newidiadau deddfwriaethol yn llawn o ran cyllid cyfalaf a chyllid refeniw parhaus gan gynnwys ymrwymiad i ariannu taliadau yswiriant gwladol cyflogwyr i unigolion a gyflogir gan asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i'r Cyngor.<br>d. Diffyg argaeledd data cymharol Cymru gyfan.<br><br>**Ceisiadau am Wybodaeth Ychwanegol**:<br><br>3. **Gofynnod** y Pwyllgor am gostau wythnosol ar gyfer y canlynol:<br>a. Lleoliad Maethu a Lleoliad Preswyl ar gyfer plentyn â phrofiad o fod mewn gofal; a<br>b. Lleoliad Preswyl ar gyfer oedolyn (gan gynnwys gwybodaeth am gyfraniadau gan Iechyd).<br><br>4. **Gofynnodd y** Pwyllgor i weld Strategaeth Maethu'r Cyngor a chroesawodd y cynnig i hyn gael ei gynnwys fel Atodiad i adroddiad *Arolygiad Gwasanaeth Maethu Arolygiaeth Gofal Cymru Mehefin 2025* sydd wedi'i drefnu i gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Medi 2025.<br><br>5. **Gofynnodd** y Pwyllgor i'r adroddiad ar yr *Oedi yn y Pecyn Gofal gan y Tîm Adnoddau Cymunedol*, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar 23 Medi 2024, gael ei ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor.<br><br>6. Gofynnodd y Pwyllgor am bapur briffio ysgrifenedig i ddeall yn well y model 'craidd a chlwstwr' arfaethedig o fyw â chymorth i bobl ag anableddau dysgu.<br><br>7. **Gofynnodd** y Pwyllgor am brîff i bob Aelod yn manylu ar y rhaglen *Adeiladu Cymunedau Cydnerth a Chysylltiedig* a thynnu sylw at rôl y Cysylltwyr, Llywiwyr a Chydlynwyr Cymunedol Lleol. |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| | 8. Gofynnodd y Pwyllgor sut mae'r Cyngor yn gwneud y cyhoedd yn ymwybodol ac yn eu hannog i ddefnyddio gwasanaethau cymunedol a gofynnodd i roi ystyriaeth i ddefnyddio tîm Cyfathrebu'r Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth.<br><br>9. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am fodel gofal cam 2.0 Awstralia sy'n ymwneud ag iechyd meddwl yn ystod y cyfarfod.<br><br>10. **Gofynnodd** y Pwyllgor i Adroddiadau Gwasanaethau Cymdeithasol Blynyddol yn y dyfodol gynnwys data cymharol gan awdurdodau lleol cymharol yng Nghymru, lle bo hynny ar gael. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Medi 2025 |

**43. Adroddiad Blynyddol ar Sylwadau a Chwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol 2024-25**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u><br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>11. Mewn perthynas â Thabl 4 – Themâu Cwynion, **gofynnodd** y Pwyllgor am nifer y cwynion ar gyfer pob un o'r canrannau a ddangosir.<br><br>12. **Gofynnodd** y Pwyllgor i Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol gynnwys data cymharol gan awdurdodau lleol cymharol yng Nghymru, lle bo hynny ar gael.<br><br>13. **Gofynnodd** y Pwyllgor am gopïau o'r Wybodaeth Cwynion Hygyrch y cyfeirir ati yn adran Amcanion yr adroddiad a'r fersiwn sy'n Addas i Blant sydd wedi'i chynhyrchu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Medi 2025 |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 44. Diweddariad am y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn amodol ar gynnwys yr argymhellion isod, nododd y Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nododd y byddai'r Flaenraglen Waith yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol iddynt ei hystyried, yn dilyn y cylch hwn o Gyfarfodydd Pwyllgor.<br><br>1. Gofynnodd y Pwyllgor i'r eitemau canlynol cael eu hychwanegu at eu Flaenraglen waith:<br>a. Trefniadau yn y Dyfodol ar gyfer Eiriolaeth i Oedolion a Phlant;<br>b. Sesiwn gaeedig yn manylu ar wybodaeth gyfrinachol a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys astudiaethau achos byw dienw.<br><br>2. Gofynnodd y Pwyllgor i Bobl Ifanc â Phrofiad o Fod Mewn Gofal gael eu gwahodd i fynychu ar gyfer yr adroddiad Cymorth i'r Rhai Sy'n Gadael Gofal, pan fydd wedi'i drefnu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Medi 2025 |

## 40. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Medi 2025 |

Er mwyn gwylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen yma os gwelwch yn dda

Daeth y cyfarfod i ben am 14:03.

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**